

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn ar **12 Chwefror 2024** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL:- Y Dirprwy Faer Cyng. Gareth Parry (yn y Gadair), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wyn Jones, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. L. Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos F. Jones, (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) a Sioned Jones (Cyfieithydd).

114/23 YMDDIHEURIADAU: Ei Theilyngdod y Maer y Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Meic Pattison.

115/23 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL.

Dim

116/23 CYFETHOL CYNGHORWYR NEWYDD.

Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad byr gan ddarpar Gynghorydd Ward Menai, Beverley Jones.

PENDERFYNWYD: cyfethol Beverley Jones i sedd wag Ward Menai.

117/23 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD.

Dim

118/23 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG.

Dosbarthwyd yr Adroddiad cyn y cyfarfod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y prosiect Trawsnewid Trefi i wella delwedd y Stryd Fawr bellach yn mynd rhagddo'n dda a bod gwaith wedi dechrau i adnabod camau pellach yn y prosiect i baratoi ar gyfer dechrau chwilio am gyllid allanol. Adroddwyd bod gan y Cyngor sedd wag o hyd yn Ward Marchog ac o ystyried yr amser a aeth heibio ers cyhoeddi'r rhybuddion gwreiddiol, byddai'r rhybudd yn cael ei ailgyhoeddi dros yr wythnos neu ddwy nesaf. Ymhellach i benderfyniad y cyfarfod diwethaf i wneud cais am y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, adroddodd y Cyfarwyddwr iddo gael cyfarfod gydag Un Llais Cymru yn ddiweddarach yn yr wythnos i symud y cais yn ei flaen. Tynnwyd sylw'r Cynghorwyr at yr opsiynau Map diweddaraf a ddarparwyd gan ABG Design (wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad a anfonwyd ymlaen llaw) a gofynnwyd am sylwadau erbyn diwedd yr wythnos (h.y. 16 Chwefror 2024).

PENDERFYNWYD: Derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig.

119/23 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR

i) **15 Ionawr, 2024.**

ii) **22 Ionawr 2024**

Roedd cofnodion y ddau gyfarfod wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Cynghorwyr.

i) **PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion yr 15 Ionawr fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

ii) **PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y 24 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

120/23 DERBYN DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHGOR DATGARBONEIDDIO.

Derbyniodd y Cyngor ddiweddariad a chyflwyniad gan y Gweithgor Datgarboneiddio. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at uchelgais y Cyngor i arwain trwy esiampl ac achosi newid yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Roedd rhai o'r camau gweithredu a awgrymwyd i'w gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, yn cynnwys hyfforddiant i staff a Chynghorwyr, cynnal archwiliad ynni o adeiladau a mabwysiadu prosiectau cynaliadwy. Cynigiodd y grŵp hefyd fabwysiadu'r penderfyniad a ganlyn:

”Mae Cyngor Dinas Bangor (y Cyngor) yn cydnabod bod yr hinsawdd yn newid, bod hyn yn cael ei achosi gan ffactorau dynol, ac y bydd yn effeithio ar bobl Bangor. Mae'r Cyngor yn cydnabod ymhellach ein bod, ochr yn ochr ac yn gysylltiedig â'r Argyfwng Hinsawdd hwn, yn gyfrifol am Argyfwng Natur. Mae'r Cyngor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Natur (2019 a 2021) a bod Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi ei gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn 2022 ac mae Cyngor y Ddinas yn cymeradwyo'r galwadau hyn i weithredu.”

PENDERFYNWYD: mabwysiadu'r penderfyniad a diolch i'r gweithgor am ei ymdrechion hyd yma.

121/23 PENODI AELOD YCHWANEGOL I'R PWYLLGOR STAFFIO.

Yn dilyn ymddiswyddiad diweddar un o Aelodau Pwyllgor Staffio Cyngor y Ddinas, gofynnwyd i unrhyw Gynghorydd a oedd yn fodlon gwasanaethu ar y Pwyllgor eu henwebu eu hunain. Cynigiodd tri Chynghorydd sefyll am y sedd wag. Gadawodd y tri Chynghorydd hyn yr ystafell a chymerwyd pleidlais.

PENDERFYNWYD: penodi'r Cyng Russell i'r Pwyllgor Staffio.

122/23 TRAFOD TREFNIADAU AR GYFER DATHLIADAU BANGOR 2025.

Yn 2025 bydd Eglwys Gadeiriol Sant Deiniol yn dathlu ei 1500fed blwyddyn ers ei sefydlu, yn 525 OC. Yn sgil hyn, bydd Bangor fel lleoliad hefyd yn dathlu 1500 o flynyddoedd o fodolaeth. Er, cydnabyddir bod yna farn y gallai fod anheddiad yn y lleoliad yn gynharach na hyn. Hysbyswyd y Cyngor, ar ôl ymgynghori ag Arglwydd Raglaw Gwynedd, y Brifysgol a'r Gadeirlan, fod posibilrwydd o ymweliad Brenhinol â'r Ddinas yn y flwyddyn honno. Yn ogystal â hyn, teimlai'r Cyngor fod hwn yn gyfle i hyrwyddo Bangor ac i drefnu cyfres o ddigwyddiadau a fyddai'n diddanu dinasyddion ac yn denu ymwelwyr.

PENDERFYNWYD : cynnal gweithdy i archwilio'r posibiliadau ar gyfer Dathliadau 2025.

123/23 CEISIADAU CYNLLUNIO.

- i. C24/0041/11/DT - Ail-gyflwyno cais am dalcen newydd, y tro hwn heb ffenestr yn 14 Rhodfa Belmont, Bangor.

Dim gwrthwynebiad

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 p.m

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR